

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD Rhagfyr 2014



Cynhaliwyd Gala Nofio Uwchradd Rhanbarth Eryri yn ddiweddar. Bydd yr enillwyr yn cynrychioli Eryri yn y Gala Genedlaethol yng Nghaerdydd ddiwedd mis Ionawr. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol fu'n cystadlu yn y Gala.

Medi Harris

1af Rhydd Merched Bl.7 ac 8

1af Cefn Merched Bl.7 ac 8

Gwenan Puw

3ydd Broga Merched Bl. 7 ac 8

Morgan Lukacs

1af Pili Pala Bechgyn Bl.7 ac 8

2il Cefn Bechgyn Bl. 7 ac 8

Lora Lukacs

1af Cymysg Unigol Merched Bl. 9 a 10

2il Rhydd Merched Bl. 9 a 10

Chwaraeon

Canlyniadau gêm Hoci dan 14: Eifionydd 1 Botwnnog 0

Canlyniadau gêm hoci Bl.7: Ysgol y Moelwyn 0 Eifionydd 7

Pêl droed - gêm Cwpan Cymru Merched dan 15:

Eifionydd 3 Botwnnog 1

Syr Hugh Owen 0 Eifionydd 7

Llangefni 0 Eifionydd 6

Mae'r tim yn yr 16 diwethaf yng Nghymru.

Plant Mewn Angen - Eleni eto bu disgyblion yr ysgol yn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 yn brysur yn cael eu noddi i wneud cacennau ac yna eu gwerthu i staff a disgyblion. Cafwyd diwrnod di-wisg ysgol hefyd a phawb yn talu am y fraint honno. Llwyddwyd i gasglu £689.03 tuag at yr apêl. Bydd y cyfanswm hwn yn codi pan ddaw gweddill arian coginio nodedig disgyblion Bl. 10 i mewn.

Teams 4U - Ar yr 20fed o Dachwedd anfonwyd 53 o focus i ymgyrch Teams 4U. Bydd y bocsus eleni yn cael eu hanfon allan i blant tlawd yn Oradea, Romania. Diolch i bawb a fu'n cyd-gordio'r ymgyrch a hefyd i'r disgyblion a roddodd yn hael.



Taith Gerdd - Yn ystod mis Tachwedd treuliodd rhai disgyblion ddeuddydd yn Llundain. Trefnwyd y daith gan Mrs. Delyth Humphreys, Pennaeth yr Adran Gerdd. Cafwyd amser bendigedig yn gwyllo sioe 'Les Miserables'. Cafwyd cyfle hefyd i ymweld â rhai o'r amgueddfeydd a gweld rhai o brif atyniadau'r ddinas.

Llongyfarchiadau calonnog i Erin Dwyfor Roberts ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru 16 neu iau yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru yn ddiweddar.

Taith Sglefrio'r Urdd: *Nos Wener, Tachwedd 29ain am 5.15 fe ddechreuom ar ein taith sglefrio i Lannau Dyfrdwy. Cawsom wahoddiad gan yr Urdd yr wythnos cynt ac ers hynny roedd pawb yn gyffrous iawn ac ar bigau'r drain eisiau mynd. Ar ôl cyrraedd gwelsom lawer o ddisgyblion ysgolion eraill fel Ysgol Friars ac Ysgol Glan y Môr.*

I ddechrau ar y rhew roedd pawb braidd yn drwsogl ac yn sownd i'r wal. Ond wedi tipyn o ymarfer, buan iawn y daethom i arfer gyda llawr llithrig y rhew, gyda rhai yn sglefrio bron mor osgeiddig â Torvil a Dean! Er hynny dwi'n siŵr fod gan nifer ohonom glais neu ddau ond roedd y poen werth o yn y diwedd gan ein bod wedi cael llawer o hwyl.

Roedd pawb wedi lapio'n gynnes ar ôl cael pregeth gan ei mamau ac wedyn sylweddoli nad oedd hi mor oed â hynny felly, nid yw mamau o hyn yn iawn!

Hoffwn ddiolch yn arw i'r Urdd am drefnu'r trip yma ac rydym yn edrych ymlaen at dripiâu eraill yn y dyfodol.

Anest Edwards, Bethan Evans, Mia Smith a Carmel Haf Jones.

Cyngerdd Nadolig - Nos Iau, Rhagfyr 4ydd cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn neuadd yr ysgol. Cafwyd amrywiaeth o eitemau a chafwyd cyngerdd gwerth chweil. Ar ddiwedd y cyngerdd diolchodd Mrs. Alwen Watkin i'r plant am eu gwaith caled ac i'w hyfforddwy am eu hyfforddi a'u paratoi ar gyfer y cyngerdd.

Cyflwynwyd tusw hardd o flodau i Mrs. Delyth Humphreys, Pennaeth yr Adran Gerdd a diolchwyd iddi am ei brwdfrydedd a'i gwaith diflino yn yr adran. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel darlithydd ym Mhrifysgol Bangor.